| December 2015 | Delivering with less – leisure services | <p>R3 Ensure effective management of performance of leisure services by establishing a suite of measures to allow officers, Members and citizens to judge inputs, outputs and impact. This should cover council-wide and facility specific performance and include:</p> <ul style="list-style-type: none"> • capital and revenue expenditure; • income; • council ‘subsidy’; • quality of facilities and the service provided; • customer satisfaction; • success of ‘new commercial’ initiatives; • usage data – numbers using services/facilities, time of usage, etc; and • impact of leisure in addressing public health priorities. <p>R4 Improve governance, accountability and corporate leadership on leisure services by:</p> <ul style="list-style-type: none"> • regularly reporting performance to scrutiny committee(s); • providing elected Members with comprehensive information to facilitate robust decision-making; • benchmarking and comparing performance with others; and • using the findings of internal and external audit/inspection reviews to identify opportunities to improve services. |

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Adroddiad Gwella Blynyddol 2015-16

Cyngor Dinas Casnewydd

Cyhoeddwyd: Hydref 2016

Cyfeirnod y ddogfen: 433A2016



Paratowyd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn ar ran Archwilydd
Cyffredinol Cymru gan Allison Rees, Non Jenkins a
Sara-Jane Byrne o dan gyfarwyddyd Alan Morris.

Huw Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru, sef bwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac er mwyn monitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae hefyd yn cynnal astudiaethau gwerth am arian llywodraeth leol ac yn asesu cydymffurfiaeth â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi a'i chyrrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol a staff Swyddfa Archwilio Cymru yn anelu at ddarparu adroddiadau cymesur sy'n canolbwyntio ar y cyhoedd ar stiwardiaeth adnoddau cyhoeddus a thrwy wneud hynny, feithrin dealltwriaeth a hyrwyddo gwelliant.

Cynnwys

Adroddiad cryno

| | |
|---|---|
| Ynglŷn â'r adroddiad hwn | 4 |
| Gwaith archwilio perfformiad 2015-16 | 5 |
| Ar sail y gwaith a gyflawnwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol, a hynny yn unig, mae'r Archwilydd Cyffredinol o'r farn fod y Cyngor yn debygol o gydymffurfio â gofynion y Mesur yn ystod 2016-17 os yw'n parhau i fynd i'r afael â'r meysydd sydd ganddo i'w gwella | 6 |
| Argymhellion | 7 |

Adroddiad manwl

| | |
|--------------------|----|
| Perfformiad | 11 |
| Defnydd o adnoddau | 17 |
| Llywodraethu | 18 |

Atodiadau

| | |
|---|----|
| Statws yr adroddiad hwn | 21 |
| Archwiliad o Gynllun Gwella 2015-16 Cyngor Dinas Casnewydd | 22 |
| Archwiliad o asesiad o berfformiad 2014-15 Cyngor Dinas Casnewydd | 24 |
| Llythyr Archwilio Blynyddol | 26 |
| Argymhellion adroddiadau cenedlaethol a gyhoeddwyd yn 2015-16 | 30 |

Adroddiad cryno

Ynglŷn â'r adroddiad hwn

- 1 Mae'r Adroddiad Gwella Blynnyddol (AGB) hwn yn rhoi crynodeb o'r gwaith archwilio a gwblhawyd yng Nghyngor Dinas Casnewydd (y Cyngor) ers cyhoeddi'r adroddiad gwella blaenorol ym mis Hydref 2015. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn cynnwys crynodeb o'r prif ganfyddiadau mewn adroddiadau a gyhoeddwyd gan 'reoleiddwyr perthnasol', sef: Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC); Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (Estyn); Arolygiaeth Prawf ei Mawrhydi (Arolygiaeth Prawf EM) a Chomisiynydd y Gymraeg (y Comisiynydd). Serch hynny, nid yw'r adroddiad hwn yn rhoi adolygiad cynhwysfawr o holl drefniadau neu wasanaethau'r Cyngor. Mae'r casgliadau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar y gwaith a gyflawnwyd gan gyrff adolygu allanol perthnasol o fewn y Cyngor ac, oni nodir fel arall, maent yn adlewyrchu'r sefyllfa ar yr adeg pan gyflawnwyd y gwaith hwnnw.
- 2 Gan ystyried y gwaith a gyflawnwyd yn ystod 2015-16, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi yn ei adroddiad a yw o'r farn y bydd y Cyngor yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn 2016-17.
- 3 Ni ddylid ystyried y datganiad hwn yn ddatganiad pendant ynghylch sefyllfa'r sefydliad, nac yn rhagfynegiad o'i lwyddiant yn y dyfodol. Yn hytrach, dylid ystyried ei fod yn rhoi barn am y graddau y mae'r trefniadau sydd ar waith ar hyn o bryd yn rhesymol gadarn, i'r graddau y gellir nodi hynny ar sail y gwaith a gyflawnwyd.
- 4 Rydym am wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Cewch rannu eich safbwyntiau â ni drwy anfon e-bost atom yn post@archwilio.cymru neu drwy ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.

Gwaith archwilio perfformiad 2015-16

- 5 Nodir isod y gwaith a gyflawnwyd ers yr AGB diwethaf, gan gynnwys gwaith 'rheoleiddwyr perthnasol'.

| Enw'r prosiect | Disgrifiad byr |
|--|---|
| Swyddfa Archwilio Cymru: Aseiad o Gydnerthedd Ariannol | Adolygiad o sefyllfa ariannol y Cyngor a'r modd y mae'n cyllidebu ac yn cyflawni'r arbedion gofynnol. |
| Swyddfa Archwilio Cymru: Archwiliad Blynyddol o'r 'Cynllun Gwella' | Adolygiad o'r cynllun a gyhoeddwyd gan y Cyngor ar gyfer cyflawni amcanion gwella yn unol â gofynion y Mesur. |
| Swyddfa Archwilio Cymru: Archwiliad Blynyddol o'r 'Aseiad o Berfformiad' | Adolygiad o aseiad cyhoeddedig y Cyngor o berfformiad, yn unol â gofynion gwybodaeth y Mesur. |
| Swyddfa Archwilio Cymru: Adolygiad Rheoli Gwastraff | Adolygiad o drefniadau'r Cyngor i wella a chynnal ei berfformiad o ran gwastraff ac ailgylchu, yn unol â thargedau Llywodraeth Cymru. |
| Swyddfa Archwilio Cymru: Gwaith dilynol | Adolygiad o gynnydd wrth ymateb i argymhellion ac argymhellion dilynol yr Aseiad Corfforaethol. |
| Swyddfa Archwilio Cymru: Adolygu Ansawdd Data | Adolygu sampl o chwech o ddangosyddion perfformiad y Cyngor a threfniadau casglu data, cofnodi ac adrodd cefnogol. |
| Swyddfa Archwilio Cymru: Rhaglen Eiddilwch Gwent | Adolygiad o Raglen Eiddilwch Gwent er mwyn asesu a yw'r Rhaglen wedi sicrhau gwelliannau yn unol â disgwyliadau sefydliadau unigol. |
| Estyn: Gwerthuso perfformiad ysgolion | Adolygiad o berfformiad ar draws ystod o feysydd mewn ysgolion o fewn y Cyngor. |
| AGGCC: Adolygiad a Gwerthusiad o Berfformiad Blynyddol | Gwerthusiad o berfformiad y Cyngor wrth gyflawni ei swyddogaethau ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol. |
| Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi: Ailarolygiad ar y Cyd | Ailarolygiad Llawn ar y Cyd o Waith Troseddau Ieuenctid yng Nghasnewydd. |
| Comisiynydd y Gymraeg: Adolygiad o Gynllun Iaith Gymraeg y Cyngor | Aseiad o effeithiolrwydd y Cynllun o ran darparu gwasanaethau'r Cyngor i'r cyhoedd yn Gymraeg. |

| Project name | Brief description |
|--|--|
| Swyddfa Archwilio Cymru: Adroddiadau cenedlaethol | <ul style="list-style-type: none"> • Partneriaethau Diogelwch Cymunedol (i'w gyhoeddi) • Cynhyrchu incwm a chodi tâl (i'w gyhoeddi) • Cyllid gan gynghorau ar gyfer gwasanaethau trydydd sector (i'w gyhoeddi) • Cydnerthedd ariannol cynghorau yng Nghymru (cyhoeddwyd Ebrill 2015) • Sicrhau gwelliannau yn y cymorth i ysgolion trwy gonsortia addysg rhanbarthol – darlun cynnar (cyhoeddwyd Mehefin 2015) • Adolygiad o drefniadau Diogelu Corfforaethol yng Nghynghorau Cymru (cyhoeddwyd Gorffennaf 2015) • Helpu Pobl Hŷn i Fyw'n Annibynnol: A yw Cynghorau'n Gwneud Digon? (cyhoeddwyd Hydref 2015) • Cyflawni â Llai - Gwasanaethau Hamdden (cyhoeddwyd Rhagfyr 2015) |

Ar sail y gwaith a gyflawnwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol, a hynny yn unig, mae'r Archwilydd Cyffredinol o'r farn fod y Cyngor yn debygol o gydymffurfio â gofynion y Mesur yn ystod 2016-17 os yw'n parhau i fynd i'r afael â'r meysydd sydd ganddo i'w gwella

- 6 Mae'r casgliad hwn yn seiliedig ar y gwaith a wnaed drwy gydol 2015-16, ond mae angen iddo edrych ymlaen at yr heriau sydd o flaen y Cyngor ar gyfer 2016-17. Dylid fframio'r casgliad er mwyn adlewyrchu i ba raddau yr ydym yn hyderus y bydd y Cyngor yn gwneud trefniadau digonol i sicrhau gwelliant parhaus (hy, bodloni ei ddyletswydd statudol).
- 7 Daeth yr Archwilydd Cyffredinol i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:
 - a Cydymffurfiodd y Cyngor â'i ddyletswyddau i gynllunio ac adrodd ar welliant o dan y Mesur.
 - b Roedd y Cyngor wedi ymateb i'n hargymhelliad statudol ac yn parhau i wella ei drefniadau ansawdd data. Fodd bynnag, roedd y trefniadau hyn yn dal i gynnwys gwendidau yr oedd angen mynd i'r afael â'r hwy er mwyn sicrhau bod y data a gyhoeddwyd ganddo ar berfformiad yn fanwl gywir
 - c Adroddodd AGGCC fod y Cyngor yn parhau i wynebu heriau sylweddol wrth drawsnewid ei wasanaethau er mwyn bod yn barod i weithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) (Deddf GCLIC) yn ystod cyfnod o gyfyngu ar y gyllideb.

- ch Roedd Gwasanaeth Troseddau Ieuencid Casnewydd wedi gwella'r ffordd yr oedd yn helpu plant a phobl ifanc i gefnu ar drosedd, ond roedd gwaith i'w wneud o hyd.
- d Roedd y Cyngor wedi atgyfnerthu ei drefniadau ariannol, ond roedd angen gwneud mwy o waith i gyflenwi cynllun ariannol tymor canolig ac i wneud yr wybodaeth ariannol oedd yn cael ei hadrodd wrth yr aelodau yn fwy eglur.
- dd Rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol farn archwilio ddiamedd ar ddatganiadau cyfrifyddu'r Cyngor, gan ddatgan eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion y Cyngor.
- e Roedd Rhaglen Eiddilwch Gwent wedi arddangos gwaith partneriaeth traws-sector cadarnhaol ar raddfa ranbarthol, er mwyn ymdrin ag anghenion cynyddol yn y gymuned, ond nid oedd wedi rhoi tystiolaeth o welliannau gweladwy o ganlyniad i hynny, a fyddai'n bwysig wrth i bartneriaid benderfynu ynghylch dyfodol y rhaglen.

Argymhellion

- 8 O ystyried yr amrywiaeth eang o wasanaethau a ddarperir gan y Cyngor â'r heriau o'i flaen, byddai'n anarferol pe na baem yn cael hyd i agweddau y gellid eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:
 - a wneud cynigion ar gyfer gwella – os caiff cynigion eu gwneud i'r Cyngor, byddwn yn disgwyl iddo weithredu arnynt ac yn mynd ar drywydd yr hyn sy'n digwydd;
 - b gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella - os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud mae'n rhaid i'r Cyngor baratoi ymateb i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod gwaith;
 - c cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi adroddiad a gwneud argymhellion; ac
 - ch argymhell y dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru ymyrryd mewn rhyw ffordd.
- 9 Ni wnaeth yr Archwilydd Cyffredinol unrhyw argymhellion ffurfiol yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, rydym ar hyn o bryd ar ganol cwblhau ein hadroddiadau yn dilyn ein hadolygiadau rheoli gwastraff, a chynnydd y Cyngor wrth ymateb i argymhellion ac argymhellion dilynol yr Aseiad Corfforaethol. Mae'r naill adroddiad drafft a'r llall dan ystyriaeth y Cyngor ar hyn o bryd.
- 10 Rydym hefyd wedi nodi rhai materion ac iddynt lai o flaenoriaeth, a elwir yn gynigion ar gyfer gwella, yn ein hadroddiadau adolygu cydnerthedd ariannol, gwastraff ac ansawdd data, ac mae'n bosibl y cyfeirir at y rhain yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn. Byddwn yn parhau i fonitro cynigion ar gyfer gwella yn ystod ein gwaith asesu gwelliant.

- 11 Nodir isod yr Argymhellion a'r Meysydd i'w Gwella (MiG) a gyflwynwyd gan AGGCC ac Arolygiaeth Prawf EM yn ystod y flwyddyn.

Adolygiad a gwerthusiad blynyddol AGGCC o berfformiad 2014-15

AFI1

- Rhoi cynllun gweithredu a gyflwynwyd mewn ymateb i adroddiad arolygu gwasanaethau oedolion AGGCC ar waith mewn modd effeithiol.
- Gweithredu unrhyw broses ar gyfer aildendro gofal cartref a gynlluniwyd ar gyfer 2015-16, sydd yn rhoi cyfle i ail-lunio gwasanaethau, gan ganolbwyntio ar wella canlyniadau i ddefnyddwyr.
- Mynd i'r afael â'r cyfraddau salwch uchel a geir yn barhaus ar draws y gweithlu gofal cymdeithasol i oedolion.

AFI2

- Rhoi cynllun gweithredu'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid (GTI) ar waith yn effeithiol.
- Rheoli a chynllunio ansawdd gofal er mwyn darparu gwybodaeth ar gyfer lleoliadau preswyl a pharu plant dan ofal ag anghenion mwy cymhleth â gofalwyr.
- Ymchwilio i'r rhesymau dros y lefelau cyson uchel o blant ar y gofrestr amddiffyn plant, a diffyg prydlondeb cynyddol cyfarfodydd y grŵp craidd, a chymryd camau i unioni hyn.

AFI3

- Monitro a goruchwyllo'r gwaith o ail-lunio gwasanaethau i oedolion a'r GTI yn effeithiol.
- Datblygu'r aelodau fel eu bod yn gallu goruchwyllo perfformiad yn fwy effeithiol a chael dealltwriaeth fanylach o oblygiadau'r Ddeddf GCLIC

Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi – Ailarolygiad llawn ar y cyd o waith ym mae Troseddau Ieuencid yng Nghasnewydd

- A1 Dylai Bwrdd Rheoli'r GTI wneud yn siŵr fod cynllun cynhwysfawr wedi'i sefydlu i ymdrin â'r holl fylchau a nodwyd yn narpariaeth neu berfformiad y gwasanaeth:
- A2 Dylai Bwrdd Rheoli'r GTI ddatblygu strategaeth addysg, hyfforddiant a chyflogaeth sydd yn goresgyn rhwystrau i ddilyniant, yn gwella sgiliau llythrennedd, ac yn cynorthwyo plant a phobl ifanc i drosglwyddo'n llwyddiannus i gyfleoedd ôl 16.
- A3 Dylai Bwrdd Rheoli'r GTI sicrhau bod strategaeth ar waith i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg.
- A4 Dylai rheolwr y GTI sefydlu prosesau goruchwylio rheoli a sicrwydd ansawdd sydd yn gadarn ac wedi'u cymhwysu i bob agwedd ar y broses asesu, cynllunio ac adolygu.
- A5 Dylai rheolwr y GTI sicrhau bod y GTI yn cynhyrchu cynlluniau ac adolygiadau o ansawdd uchel, yn enwedig mewn perthynas â'r risg o niwed a'r graddau y mae unigolion yn agored i niwed.
- A6 Dylai rheolwr y GTI sicrhau bod asesiadau'n ymwneud â iechyd corfforol a rhywiol yn cael eu cwblhau, a bod llwybr clir ar gyfer triniaeth a chefnogaeth wedi'i sefydlu, a bod staff yn deall y llwybr hwnnw.
- A7 Dylai rheolwr y GTI sicrhau bod yr holl aelodau o staff yn deall Trefniadau Aml-asiantaeth ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd, ac mae'n rhaid nodi'r holl achosion perthnasol.

Adroddiad manwl



Perfformiad

Archwiliad o Gynllun Gwella 2015-16 Cyngor Dinas Casnewydd

- 12 Ar 19 Mai 2015, cyflwynwyd tystysgrif gennym yn dangos bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 15(6) i (9) o'r Mesur, ac wedi gweithredu'n unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru i raddau digonol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau. Mae'r dystysgrif wedi'i chynnwys yn **Atodiad 2**.

Tystysgrif cydymffurfio ar gyfer yr Archwiliad asesiad o berfformiad 2014-15 Cyngor Dinas Casnewydd

- 13 Ar 6 Tachwedd 2015, cyflwynwyd tystysgrif cydymffurfio ar gyfer archwiliad asesiad o berfformiad 2014-15 y Cyngor. Mae'r dystysgrif yn cadarnhau bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adrannau 15(2), (3), (8) a (9) o'r Mesur. Mae ein tystysgrif wedi'i chynnwys yn **Atodiad 3**.

Roedd y Cyngor wedi rhoi'r flaenoriaeth i gynyddu ailgylchu, ond ni fu ei drefniadau ar gyfer rheoli gwastraff yn ddigon strategol. Nid oedd ychwaith wedi defnyddio ei drefniadau llywodraethu a rheoli perfformiad mewn modd effeithiol i ysgogi gwelliant, er ei fod bellach yn cymryd camau i'r perwyl hwn

- 14 Ym mis Ionawr 2016, cynhaliom adolygiad rheoli gwastraff er mwyn ystyried a oes gan y Cyngor drefniadau effeithiol ar waith er mwyn gwella a chynnal ei berfformiad gwastraff ac ailgylchu, yn unol â thargedau Llywodraeth Cymru.
- 15 Er bod y cyngor wedi rhoi'r flaenoriaeth i gynyddu ailgylchu, casgliad ein hadolygiad oedd na fu ei reolaeth ar wastraff yn ddigon strategol, ac nid oedd wedi defnyddio ei drefniadau llywodraethu a rheoli perfformiad yn effeithiol i ysgogi gwelliant, er ei fod bellach yn cymryd camau i'r perwyl hwn.
- 16 Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:
- a Hyd hynny, roedd cynnydd y Cyngor i ymdrin â'i berfformiad o ran gwastraff ac ailgylchu wedi bod yn araf, ond roedd y tîm rheoli gwastraff newydd yn datblygu cynllun busnes fyddai'n disgrifio sut y byddai perfformiad yn gwella;
 - b Nid oedd y Cyngor wedi gwneud defnydd effeithiol o'i drefniadau llywodraethu a rheoli perfformiad er mwyn gwella perfformiad ond, yn fwy diweddar, roedd y Pwyllgor Craffu Strydlun, Adfywio ac wedi dangos bod ganddo botensial i chwarae rhan allweddol yn y gwaith o ysgogi gwelliannau;
 - c Roedd y Cyngor yn cydnabod y byddai'n anodd iddo gyrraedd targedau statudol yn y dyfodol, oni fyddai'n cynyddu cyfraddau cyfranogiad ailgylchu, ond nid oedd ganddo gynllun addysg ac ymgysylltu cynhwysfawr er mwyn gwneud hynny; ac

- ch Yn fwy diweddar, roedd y Cyngor yn gweithio gyda phartneriaid allweddol i wella perfformiad o ran gwastraff ac ailgylchu, ond roedd angen gwella gwaith rheoli a monitro partneriaethau.

Mae'r Cyngor wedi ymateb i'n hargymhelliad statudol ac roedd yn parhau i wella ei drefniadau ar gyfer ansawdd data. Fodd bynnag, roedd y trefniadau hyn yn dal i gynnwys gwendidau yr oedd angen mynd i'r afael â'r hwy er mwyn sicrhau bod y data a gyhoeddwyd ganddo ar berfformiad yn fanwl gywir

- 17 Ym mis Tachwedd 2015, cynhaliom adolygiad ansawdd data a buom yn archwili sampl o chwech o fesurau perfformiad a systemau data gweithredol y Cyngor. Prif amcan yr adolygiad oedd asesu a oedd y Cyngor wedi ymateb yn ddigonol i'n hargymhelliad a'n cynigion ar gyfer gwella er mwyn gwella ei drefniadau sicrwydd ansawdd data yn dilyn adolygiad yn 2014-15.
- 18 Gwelsom y canlynol:
- a bod y Cyngor wedi ymateb i'n hargymhelliad i gasglu a chyhoeddi data ar Ddatganiadau Anghenion Addysg Arbennig Terfynol a gyflwynir o fewn 26 wythnos (EDU/015a) yn unol â'r diffiniad a ragnodwyd yn genedlaethol;
 - b er bod y Cyngor wedi cyflwyno gwelliannau, bod gwendidau o hyd yn ei drefniadau ar gyfer ansawdd data; ac
 - c bod gwendidau o hyd yn rhai o drefniadau'r Cyngor ar gyfer ansawdd data, a bod angen mynd i'r afael â'r rhain er mwyn sicrhau bod y data a gyhoeddwyd ganddo ar berfformiad yn fanwl gywir.

Gwerthusiad Estyn o berfformiad ysgolion

- 19 Mae cyfran y disgyblion sy'n gymwys i dderbyn pryd ysgol am ddim ychydig yn uwch yng Nghasnewydd na chyfartaledd Cymru. Ystyrir hyn wrth werthuso perfformiad o fewn yr awdurdod.
- 20 Daeth Estyn i'r casgliad fod cyfran y disgyblion a oedd yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen a'r dangosydd pynciau craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn gyson uwch na chyfartaledd Cymru, ac yn uwch na'r gyfran mewn awdurdodau tebyg.
- 21 Daeth Estyn i'r casgliad fod perfformiad yn y dangosydd pynciau craidd yng nghyfnod allweddol 3 wedi gwella ar gyfradd arafach na chyfartaledd Cymru. Roedd y perfformiad yn is na chyfartaledd awdurdodau tebyg yn 2015, a bu hynny hefyd yn wir yn 2014, er i'r perfformiad fod yn uwch na chyfartaledd Cymru yn y tair blynedd cyn hynny.

- 22 Daeth Estyn i'r casgliad bod perfformiad yn y trothwy lefel 2 yng nghyfnod allweddol 4, gan gynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg, wedi gwella'n gyson dros y blynyddoedd diwethaf, ac wedi parhau'n agos at gyfartaledd awdurdodau tebyg. Mae perfformiad y sgôr pwyntiau cyfartalog eang wedi'i gapio wedi gwella'n gyson, ond cafwyd mymryn o ddirywiad yn 2015 ac, am y tro cyntaf mewn blynyddoedd, mae'r sgôr hwnnw'n is na sgôr awdurdodau tebyg. Yn 2015 a 2014, nid yw Casnewydd wedi bodloni meincnodau perfformiad Llywodraeth Cymru ym mhrif ddangosyddion cyfnod allweddol 4, ar ôl rhagori ar y meincnodau hynny yn y tair blynedd blaenorol.
- 23 Daeth Estyn i'r casgliad bod perfformiad disgyblion sydd yn gymwys i gael pryd ysgol am ddim ym mhrif ddangosyddion yr ysgolion cynradd yn well na chyfartaledd Cymru yn y ddwy flynedd ddiwethaf. Fodd bynnag, mae perfformiad y disgyblion hyn mewn ysgolion uwchradd ym mwyafrif y prif ddangosyddion wedi bod yn is na'r cyfartaledd dros y tair blynedd diwethaf.
- 24 Daeth Estyn i'r casgliad bod presenoldeb mewn ysgolion cynradd wedi gwella ar gyfradd debyg i'r hyn a gafwyd ledled Cymru, ond yn 2015, roedd y gyfradd honno fymryn yn is na'r gyfradd mewn awdurdodau tebyg. Mae presenoldeb mewn ysgolion uwchradd wedi gwella ar gyfradd arafach na chyfartaledd Cymru, ac yn is na chyfartaledd awdurdodau tebyg yn 2015.
- 25 Daeth Estyn i'r casgliad bod cyfradd y gwaharddiadau o bum niwrnod neu lai o ysgolion wedi cynyddu oddeutu 60% ers 2012, ac mai'r gyfradd honno yw'r waethaf yng Nghymru bellach. Er bod cyfradd y rhai a adawodd ar ôl Blwyddyn 11 nad oeddent mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant wedi gostwng, y gyfradd honno oedd yr uchaf yng Nghymru yn 2014.

Adroddodd AGGCC fod y Cyngor yn parhau i wynebu heriau sylweddol wrth drawsnewid ei wasanaethau er mwyn bod yn barod i weithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) (Deddf GCLIC) yn ystod cyfnod o gyfyngu ar y gyllideb

- 26 Cyhoeddodd AGGCC ei **Adolygiad a Gwerthusiad o Berfformiad Blynyddol 2014-15** ym mis Hydref 2015.
- 27 Daeth AGGCC i'r casgliad bod y Cyngor yn parhau i wynebu heriau sylweddol wrth drawsnewid ei wasanaethau er mwyn bod yn barod i weithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) (Deddf GCLIC) yn ystod cyfnod o gyfyngu ar y gyllideb. Roedd integreiddio darpariaeth gwasanaeth â'i asiantaethau partner yn allweddol er mwyn cynnal cynnydd, a bu rhai enghreifftiau nodedig o lwyddiant, gan gynnwys sicrhau bod y ganolfan gofal cymdeithasol yn yr ysbty lleol yn gweithredu'n fwy effeithiol. Canlyniad hyn oedd gwelliant sylweddol mewn perfformiad o ran oedi cyn trosglwyddo gofal, a sicrhau canlyniadau gwell i bobl.

- 28 Fodd bynnag, oherwydd natur a graddfa'r newidiadau angenrheidiol, yn enwedig mewn perthynas â gwasanaethau oedolion, roedd angen cymorth a chefnogaeth ar bob lefel o fewn y cyngor er mwyn bwrw ymlaen â hwy. Roedd cynllun gweithredu wedi cael ei roi ar waith yn dilyn adroddiad AGGCC ar wasanaethau oedolion i bobl hŷn ag anghenion mwy cymhleth, a nodai wendidau sylweddol. Er mwyn ei weithredu'n llwyddiannus, byddai angen ffocws ac egni rheoli sylweddol er mwyn helpu i drawsnewid dull Casnewydd a chreu dull newydd a oedd yn gallu ymateb i anghenion newidiol pobl mewn modd rhagweithiol.
- 29 Daeth AGGCC i'r casgliad y bu rhai gwelliannau sylweddol o ran recriwtio a chadw'r gweithlu, yn enwedig yn y gwasanaethau plant. Roedd hyn wedi hwyluso'r broses o wella perfformiad mewn rhai ardaloedd, gan gynnwys canlyniadau i blant dan ofal. Mewn cyferbyniad â hyn, yr oedd lefelau uchel o salwch o hyd ymhlith cyflogeion gwasanaethau cymdeithasol oedolion, ac ni fu ymdrechion rheolwyr i ostwng y lefelau yn llwyddiannus. Parhaodd y gwaith i ail-lunio gwasanaethau mewnol, ac roedd yn bwysig i'r awdurdod sicrhau parhad ac ansawdd darpariaeth gwasanaeth yn ystod y cyfnod hwn o newid sylweddol a pharhaus.
- 30 Daeth AGGCC i'r casgliad y cafwyd penodiadau i ddwy swydd diogelu a sicrwydd ansawdd cyffredinol newydd yn ystod y flwyddyn yn sgil ad-drefnu, ac y byddai'r swyddi hynny'n allweddol er mwyn tanategu rhaglen newid sylweddol y cyngor. Cymerai aelodau Cabinet a oedd yn gyfrifol am wasanaethau plant ac oedolion ddiddordeb rhagweithiol yn eu rôl, ac roedd cyfrifoldebau rhianta corfforaethol wedi'u cydnabod ac yn cael eu hystyried o ddifrif. Yr oedd ymwybyddiaeth yn datblygu ar draws yr awdurdod ynghylch goblygiadau Deddf GCLIC, ond gwaith ar y gweill o hyd oedd gwelliannau i'r rôl graffu wrth oruchwylio perfformiad a dwyn swyddogion i gyfrif.

Gwerthusiad Comisiynydd y Gymraeg o berfformiad Cyngor Dinas Casnewydd

- 31 Cafodd rôl Comisiynydd y Gymraeg ei chreu yn sgil Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Ar ddiwedd 31 Mawrth 2015, daeth pwerau newydd i orfodi safonau ar sefydliadau drwy is-ddeddfwriaeth. Bydd y Comisiynydd yn parhau i adolygu cynlluniau iaith Gymraeg yn rhinwedd pwerau a etifeddiwyd yn sgil Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.
- 32 Mae'r Comisiynydd yn cydweithio â'r holl gynghorau yng Nghymru i archwilio cynlluniau iaith a chynghori ynghylch sut i'w gweithredu. Cyfrifoldeb cynghorau yw darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg yn unol â'r ymrwymadau yn eu cynlluniau iaith. Mae pob cyngor wedi ymrwmo i ddarparu adroddiad monitro blynyddol i'r Comisiynydd sy'n amlinellu ei berfformiad o ran gweithredu'r cynllun iaith. Mae'r Comisiynydd yn dadansoddi pob adroddiad monitro, yn rhoi ymateb ffurfiol ac yn casglu gwybodaeth bellach fel bo'r angen.

- 33 Rhwng mis Gorffennaf a Hydref 2015, cynhaliodd y Comisiynydd ymchwiliad ar ôl derbyn cwyn gan aelod o'r cyhoedd o dan adran 18 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993. Penderfynodd y Comisiynydd arfer ei phwerau o dan adran 17 a chynnal ymchwiliad er mwyn canfod a oedd y Cyngor wedi methu â chyflawni'r cynllun iaith.
- 34 Mae ymateb ffurfiol y Comisiynydd, unrhyw lythyrau a gyflwynwyd i'r Cyngor yn ystod y flwyddyn, a chanlyniad ymchwiliad y Comisiynydd o dan adran 17 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 ar gael ar [wefan y Comisiynydd](#).

Ailarolygiad Llawn ar y Cyd o Waith Troseddau Ieuencid yng Nghasnewydd

- 35 Ym mis Chwefror 2016, cynhaliwyd ailarolygiad ar y cyd o waith troseddau ieuencid yng Nghasnewydd gan y gwasanaeth cyfiawnder troseddol, gofal a chymorth, iechyd a'r arolygiaeth dysgu a sgiliau ar ôl derbyn canlyniadau gwael yn ystod cydarolygiad llawn yn 2014.
- 36 Casgliad yr arolygiad oedd bod perfformiad wedi gwella i raddau sylweddol yng Ngwasanaeth Troseddau Ieuencid (GTI) Casnewydd ers yr arolygiad diwethaf. Canfuwyd bod y GTI yn gryfach o ran ei waith asesu ac yn darparu ymyraethau o ansawdd da. Roedd gan Fwrdd Rheoli'r GTI amcanion clir ac roedd wedi llwyddo i sicrhau bod gan blant a phobl ifanc fynediad at ystod o wasanaethau wedi'u cynllunio i'w symud oddi wrth fywyd o droseddu. Yr oedd gwaith i'w wneud o hyd er mwyn gwella cynllunio er mwyn rheoli plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed, a darparu gwasanaeth addysg, hyfforddiant a chyflogaeth cynhwysfawr. Roedd y GTI yn ymwybodol bod angen iddo wella, ac roedd yn mynd ati mewn ffordd adeiladol i ymdrin â'r problemau.
- 37 Ceir crynodeb isod o ganfyddiadau'r ailarolygiad:
- a Roedd gwaith cyffredinol i leihau aildroseddu yn foddhaol. Darparwyd adroddiadau cyn dedfrydu o ansawdd da i'r llysoedd. Roedd y staff yn gwneud gwaith ymchwil da i'r rhesymau pam bod plant a phobl ifanc wedi troseddu. Ni sicrhawyd bod adolygiadau o asesuadau a chynlluniau'n cyrraedd y safon ofynnol yn rhan o'r broses sicrhau ansawdd. Ni wnaeth y GTI hyrwyddo manteision defnyddio'r Gymraeg i raddau digonol. Nid oedd unrhyw strategaeth sgiliau sylfaenol ar waith er mwyn sicrhau bod lefelau llythrennedd a rhifedd plant a phobl ifanc yn gwella.
 - b Roedd gwaith i ddiogelu'r cyhoedd a dioddefwyr gwirioneddol / darpar dioddefwyr yn foddhaol. Roedd adroddiadau i'r llys ac asesuadau cychwynnol o'r risg o niwed yn ddigonol. Yr oedd gormod o adolygiadau asesu heb eu cwblhau yn dilyn newid o bwys, neu roedd yr adolygiadau hynny o ansawdd gwael. Nid oedd cynlluniau rheoli risg yn rhoi digon o sylw i faterion dioddefwyr neu gynlluniau wrth gefn. Nid oedd y broses ar gyfer Trefniadau Aml-asiantaeth i Ddiogelu'r Cyhoedd wedi'i hymwreiddio yn y GTI.

- c Ar y cyfan, roedd gwaith i ddiogelu plant a phobl ifanc, a lleihau'r graddau yr oeddent yn agored i niwed, yn anfoddhaol. Roedd yr adroddiadau i'r llys a'r asesiadau diogelu a pherygl cychwynnol yn foddhaol, ond ni chynhaliwyd adolygiadau o asesiadau, neu roeddent yn anghyflawn yn dilyn newid o bwys. Yn aml, nid oedd cynlluniau'n rhoi digon o sylw i berygl a sut i'w reoli. Nid oedd y broses sicrhau ansawdd a oedd ar waith yn effeithiol o ran sicrhau bod ansawdd y gwaith i ymdrin â pheryglon yn ddigonol.
 - ch At ei gilydd, roedd y gwaith i sicrhau bod y ddedfryd yn cael ei chwblhau yn dda. Roedd adroddiadau ac asesiadau cychwynnol yn dda a, nodi materion amrywiaeth a rhwystrau i ymgysylltu. Roedd y GTI yn dda am ymgysylltu â phlant a phobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr drwy gydol y ddedfryd. Gwelwyd defnydd priodol o gamau cydymffurfio a gorfodi yn y rhan fwyaf o achosion. Nid oedd digon o ffocws ar asesu iechyd corfforol ac iechyd rhyw plant a phobl ifanc.
 - d At ei gilydd, roedd effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu a phartneriaeth yn foddhaol. Cafwyd tystiolaeth o arweinyddiaeth strategol, gyda chynllun a chyfeiriad clir ar gyfer y GTI. Roedd y cyngor yn dwyn partneriaid i gyfrif drwy fframwaith rheoli perfformiad clir. Roedd trefniadau craffu effeithiol ar waith ar gyfer Bwrdd Rheoli'r GTI, ac roedd aelodau etholedig yr awdurdod lleol yn cymryd rhan yn y gwaith o ymdrin â throseddau pobl ifanc. Roedd y GTI wedi'i arwain yn dda gan dîm rheoli deallus.
 - dd At ei gilydd, roedd yr ymyraethau i leihau aildroeddu yn foddhaol. Roedd ystod addas o ymyraethau ar gael yn y GTI. Roedd y staff yn meddwl ystyried ffyrdd arloesol o addasu deunyddiau presennol neu greu deunyddiau newydd er mwyn sicrhau eu bod yn ennyn diddordeb y plant a'r bobl ifanc. Ni chanfuwyd y ffactorau a oedd yn rhwystro ymgysylltiad cadarnhaol bob tro, yn enwedig o ran gwaith a ganolbwyntiai ar ferched a menywod ifanc. Nid oedd canlyniadau yn sgil ymyraethau newydd neu bresennol wedi cael eu gwerthuso a'u mesur yn llwyr.
- 38 Gwnaed saith argymhelliad yn sgil yr arolygiad. Nodir y rhain ar dudalen wyth uchod.
- 39 Cyhoeddwyd yr adroddiad arolygu ym mis Mehefin 2016 ac y mae ar gael ar [wefan Arolygiaeth Prawf EM](#).

Defnydd o adnoddau

Archwilio cyfrifon y Cyngor

- 40 Ar 1 Chwefror 2016, cyflwynodd yr Archwilydd Cyffredinol Lythyr Archwilio Blynyddol i'r Cyngor. Mae'r llythyr yn rhoi crynodeb o'r prif negeseuon a oedd yn deillio o'i gyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 fel yr Archwilydd Penodedig, a'i gyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio. Rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol farn archwilio ddiamod ar ddatganiadau cyfrifyddu'r Cyngor, gan ddatgan eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion y Cyngor. Ceir hyd i'r Llythyr Archwilio Blynyddol yn **Atodiad 4** yr adroddiad hwn.

Roedd y Cyngor wedi atgyfnerthu ei drefniadau ariannol, ond roedd angen mwy o waith i gyflenwi cynllun ariannol tymor canolig cytbwys, ac i wneud yr wybodaeth ariannol oedd yn cael ei hadrodd wrth yr aelodau yn fwy eglur

- 41 Ym mis Ebrill 2015, cyhoeddwyd adroddiad cenedlaethol gennym, sef 'Cydnherthedd ariannol cynghorau yng Nghymru'. Roedd yr adroddiad hwn yn seiliedig ar waith maes a gwblhawyd ym mhob cyngor lleol yng Nghymru.
- 42 O ystyried y pwysau parhaus ar gyllid cynghorau Cymru, buom yn ystyried a oedd gan y Cyngor drefniadau priodol er mwyn cynllunio, sicrhau a chynnal ei gydnerthedd ariannol yn y tymor canolig (tua tair i bum mlynedd i'r dyfodol fel arfer). Cynhaliom adolygiad yn ystod y cyfnod rhwng mis Mai a mis Ionawr 2015, gan fynd ar drywydd materion a amlygwyd yn ei gwaith ar gydnerthedd ariannol yn 2014-15. Ffocws yr adolygiad hwn oedd cyflawni cynlluniau arbed 2014-15, a chyfnod cynllunio ariannol 2015-16. Cyflwynwyd ein hadroddiad ar gydnerthedd ariannol i'r Cyngor ym mis Mehefin 2016.
- 43 Ar y cyfan, daethom i'r casgliad bod y Cyngor wedi atgyfnerthu ei drefniadau ariannol, ond bod angen mwy o waith i gyflenwi cynllun ariannol tymor canolig cytbwys, ac i wneud yr wybodaeth ariannol oedd yn cael ei hadrodd wrth yr aelodau yn fwy eglur.
- 44 Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:
- a nid oedd cynllun ariannol tymor canolig y Cyngor yn gwbl gytbwys eto, nac wedi'i gefnogi gan bolisi ffurfiol ar gronfeydd;
 - b roedd y Cyngor wedi gwella elfennau o'i reolaethau ariannol, a oedd yn cynnwys adolygiad o'r tanwariant heb ei gynllunio a adroddwyd yn 2014-15, ond roedd lle i wella ei reolaethau ariannol eto; ac
 - c roedd gan y Cyngor drefniadau llywodraethu ariannol cadarn ar lefel swyddogion ond gallai'r wybodaeth a ddarperir i'r Cabinet a'r Pwyllgorau Craffu fod yn fwy eglur eto, er mwyn cefnogi'r broses o fonitro arbedion cytunedig.

Llywodraethu

Roedd y Cyngor wedi gwneud cynnydd yn erbyn yr holl argymhellion a wnaed yn ein hadroddiad dilynol ar yr Asesiad Corfforaethol, ond roedd mwy o waith i'w wneud er mwyn sicrhau ymdriniaeth lawn â'r argymhellion hynny

- 45 Ym mis Chwefror a mis Mawrth 2016, cynhaliom adolygiad dilynol er mwyn canfod faint o gynnydd a gafwyd o fewn y Cyngor wrth ymateb i'r argymhellion a wnaed yn ein Hasesiad Corfforaethol a'r adroddiad dilynol ar yr asesiad hwnnw. Defnyddiwyd gwaith arall a gyflawnwyd gennym o fewn y Cyngor yn 2015-16 hefyd yn sail ar gyfer ein hasesiad. Roedd hyn yn cynnwys adolygiadau o ansawdd data, cydnerthedd ariannol a rheoli gwastraff.
- 46 Casgliad ein hadolygiad oedd fod y Cyngor wedi gwneud cynnydd yn erbyn yr holl argymhellion a wnaed yn ein hadroddiad dilynol ar yr Asesiad Corfforaethol, ond roedd mwy o waith ar ôl i'w wneud er mwyn sicrhau ymdriniaeth lawn â'r argymhellion hynny.
- 47 Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:
- a Dangoswyd cydarweinyddiaeth dda wrth ymateb i ganfyddiadau ein hasesiad corfforaethol a'r heriau eraill o flaen y Cyngor;
 - b Roedd gan y Cyngor drefniadau ar waith er mwyn ymateb i'n hargymhellion, eu monitro ac adrodd arnynt, ond byddai herio a thrafodaeth fwy brwdfrydig ar gynnydd o fewn y Cabinet yn atgyfnerthu'r trefniadau hyn;
 - c Roedd ansawdd yr wybodaeth a oedd yn cael ei darparu i'r Aelodau i'w galluogi i herio a gwneud penderfyniadau wedi gwella, ond roedd lle o hyd i sicrhau cysondeb yn hyn o beth;
 - ch Roedd y Cyngor wedi dechrau gwella ei drefniadau llywodraethu, ond nid oedd yn manteisio i'r eithaf ar werth craffu;
 - d Roedd y Cyngor wedi atgyfnerthu ei drefniadau ariannol, ond roedd angen gwneud mwy o waith i greu cynllun ariannol tymor canolog cytbwys a gwella eglurder yr wybodaeth ariannol oedd yn cael ei hadrodd i'r Aelodau;
 - dd Nid oedd gan y Cyngor ddull strategol o gynllunio'r gweithlu eto, ond dangosai canlyniadau ei arolwg cyflogaion diweddar fod y Cyngor wedi ymgysylltu'n gynyddol â chyflogaion, a roddodd seiliau da iddo atgyfnerthu ei waith ar gyfer cynllunio'r gweithlu; ac
 - e Roedd y Cyngor wedi bodloni ein hargymhelliad i gasglu a chyhoeddi data ar Ddatganiadau Anghenion Addysgol Arbennig a gyflwynir o fewn 26 wythnos (EDU/015a) yn unol â'r diffiniad a ragnodwyd yn genedlaethol.

Roedd Rhaglen Eiddilwch Gwent wedi arddangos gwaith partneriaeth traws-sector cadarnhaol ar raddfa ranbarthol, er mwyn ymdrin ag anghenion cynyddol yn y gymuned. Fodd bynnag, nid oedd wedi rhoi tystiolaeth o welliannau gweladwy o ganlyniad i hynny, a fyddai'n bwysig wrth i bartneriaid benderfynu ynghylch dyfodol y rhaglen

- 48 O fis Ebrill 2011, dechreuodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (y Bwrdd Iechyd) a Chynghorau Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy a Thorfaen weithredu model gofal integredig uchelgeisiol, o dan yr enw Rhaglen Eiddilwch Gwent (y Rhaglen)¹. Ariannwyd y Rhaglen drwy fenthyciad Buddsoddi i Arbed gan Lywodraeth Cymru a thrwy gyfraniadau gan bartneriaid perthnasol er mwyn creu cronfa gyfun.
- 49 Mae gan y Rhaglen statws cyfreithiol o dan gytundeb partneriaeth Adran 33² rhwng y Bwrdd Iechyd a'r pum cyngor yng Ngwent. Parhaodd y cytundeb dros dair blynedd, gan gychwyn ym mis Ebrill 2011. Sefydlwyd Cyd-bwyllgor Eiddilwch Gwent (CEG) fel corff penderfynu a fyddai'n atebol yn ffurfiol am y cytundeb Adran 33. Roedd gwaith Cyd-bwyllgor Rhaglen Eiddilwch Gwent hefyd yn cael ei gefnogi gan Grŵp Cydgysylltu Gweithredol, amrywiaeth o is-grwpiau arbenigol a strwythurau gweithredu lleol³.
- 50 Ym mis Tachwedd 2012, cynhaliom adolygiad o'r Rhaglen a chanfod ymroddiad cryf ymhlith y partneriaid tuag at weledigaeth Eiddilwch Gwent, a bod y partneriaid hynny wedi creu fframwaith rheoli rhaglen cadarn i gefnogi'r weledigaeth honno. Roeddem yn cydnabod bod y Rhaglen yn ei dyddiau cynnar o ran ei gweithredu, a'i bod yn wynebu heriau wrth sicrhau ei bod yn gynaliadwy, wrth newid arferion gwaith a oedd wedi'u sefydlu ac wrth arddangos ei heffaith.
- 51 Yn ein hadolygiad diweddaraf ym mis Mai 2015, rhoddwyd y prif sylw i ystyried a oedd Rhaglen Eiddilwch Gwent wedi sicrhau gwelliannau yn unol â disgwyliadau sefydliadau unigol.
- 52 Daethom i'r casgliad bod y Rhaglen 'wedi arddangos gwaith partneriaeth traws-sector cadarnhaol ar raddfa ranbarthol, er mwyn ymdrin ag anghenion cynyddol yn y gymuned, ond nid oedd wedi rhoi tystiolaeth o welliannau gweladwy o ganlyniad i hynny, a fyddai'n bwysig wrth i bartneriaid benderfynu ynghylch dyfodol y rhaglen'.

1 Oni nodir fel arall, mae 'Rhaglen' yn cynnwys y pwyllgorau a'r gweithgorau, yr aelodau a'r staff, a'r model cyffredinol o ran cyflenwi a'r gwasanaeth.

2 Mae cytundeb Adran 33 yn creu sail ffurfiol ar gyfer gwaith partneriaeth. Gall partneriaid ddefnyddio cytundeb Adran 33 fel mecanwaith i gyfuno cyllid refereniw a chyfalaf. Rheolau'r awdurdod cynnal sydd yn berthnasol o ran rheoli a chyfrifysu arian. Mae hyn yn golygu y gall y cydwasanaeth adennill TAW yn ogystal â manteisio ar fathau eraill o hyblygrwydd ariannol sydd ar gael i gyrrff llywodraeth leol.

3 I ddibenion yr adroddiad hwn, cyfeirir at CEG, y Grŵp Cydgysylltu Gweithredol, yr amrywiaeth o is-grwpiau arbenigol a strwythurau gweithredu lleol wrth gyfeirio at Bwyllgorau'r Rhaglen.

53 Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- a Llwyddodd Rhaglen Eiddilwch Gwent i ddod â phartneriaid ynghyd a fuddsoddodd o'u hamser a'u hadnoddau er mwyn gwella canlyniadau i bobl oedrannus bregus, ond ni chyflawnwyd y nodau ariannol, ac roedd dangos tystiolaeth o'r canlyniadau yn parhau i fod yn anodd i'r partneriaid.
- b Bu'r trefniadau llywodraethu dros oes y rhaglen yn ddigonol ar y cyfan, ond gallai'r Rhaglen fod wedi ymgysylltu'n well â phartneriaid. Gallai hefyd fod wedi elwa ar wybodaeth gliriach, a bod yn fwy agored ynghylch ei busnes. Gwelsom y canlynol:
 - bod y trefniadau llywodraethu yn caniatáu penderfyniadau amserol, ond nad oedd sefydliadau partner bob tro yn cael gwybodaeth ddigonol am faterion pwysig a effeithiai ar y Rhaglen, fel y tanwariant mawr oedd yn dod i'r amlwg;
 - roedd trefniadau adrodd ariannol o fewn y Rhaglen yn ddigonol, ond nid oedd yr adroddiadau ar berfformiad yn addas i'r diben;
 - cafwyd dechrau da o ran tryloywder i'r cyhoedd a chofnodi penderfyniadau, ond gwaniodd y gwaith hwnnw dros amser; ac
 - nid oedd gwaith rheolaidd i graffu ar benderfyniadau'r CEG yn drylwyr, ond roedd y rhan fwyaf o bartneriaid yn adrodd yn flynyddol drwy eu trefniadau craffu eu hunain.
- c Roedd Rhaglen Eiddilwch Gwent yn elwa ar ymrwymiad cryf, ac yr oedd mewn cyfnod tyngedfennol yn ei hanes, ond roedd arni angen gweledigaeth glir er mwyn llwyddo. Gwelsom y canlynol:
 - bod y Rhaglen wedi elwa ar ymroddiad cryf gan y sefydliadau partner, a bod angen ailgadarnhau'r ymroddiad hwnnw yng nghyd-destun yr heriau ariannol a gweithredol a wynebai'r sefydliadau unigol; ac
 - nad oedd cyfeiriad y Rhaglen yn y dyfodol yn glir, bod y bartneriaeth mewn cyfnod tyngedfennol yn ei hanes, a bod y partneriaid yn dal heb gytuno ar weledigaeth glir, y byddai angen canlyniadau a buddion clir ar ei chyfer.

Atodiad 1 – Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cynnwys cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Cwblhawyd y gwaith hwn gan staff Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol, er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 y Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio ar gyfer gwella o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, parciau cenedlaethol, ac awdurdodau tân ac achub.

Yr asesiad gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Mae'r asesiad o welliant yn asesiad blaengar o'r tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llunio barn ar hanes yr awdurdod o ran sicrhau gwelliant. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn rhoi crynodeb o'i waith archwilio ac asesu mewn adroddiad gwella blynyddol a gyhoeddir ar gyfer pob awdurdod (o dan adran 24).

O dan rai amgylchiadau gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y bydd yn cyflwyno adroddiad arnynt i'r awdurdod a Gweinidogion, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Un o weithgareddau atodol pwysig yr Archwilydd Cyffredinol yw cydgysylltu gwaith asesu a rheoleiddio (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

Atodiad 2 – Archwiliad o Gynllun Gwella 2015-16 Cyngor Dinas Casnewydd

Tystysgrif

Tystiaf fy mod wedi archwilio Cynllun Gwella Cyngor Dinas Casnewydd (y Cyngor) yn unol ag adran 17 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) a'm Cod Ymarfer Archwilio.

O ganlyniad i'm harchwiliad, credaf fod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 15(6) i (9) o'r Mesur, ac wedi gweithredu'n unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, a hynny i raddau digonol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau.

Priod gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Archwilydd Cyffredinol

O dan y Mesur, mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella sy'n disgrifio'i gynlluniau i gyflawni ei ddyletswyddau i:

- wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni ei swyddogaethau;
- gwneud trefniadau i sicrhau ei fod yn cyflawni ei amcanion gwella; a
- gwneud trefniadau i gyflawni ei swyddogaethau er mwyn bodloni unrhyw safon perfformiad a osodwyd gan Weinidogion Cymru.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi ei Gynllun Gwella cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n berthnasol iddi, neu ar ôl dyddiad arall a bennir drwy orchymyn gan Weinidogion Cymru.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am baratoi'r Cynllun Gwella ac am yr wybodaeth a nodir ynddo. Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor roi sylw i'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru wrth baratoi a chyhoeddi ei gynllun.

Fel archwilydd y Cyngor, y mae'n ofynnol i mi, o dan adrannau 17 ac 19 o'r Mesur, gynnal archwiliad o'r Cynllun Gwella, tystio fy mod wedi gwneud hynny, ac adrodd a wyf o'r farn fod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau'n unol â gofynion statudol a nodwyd yn adran 15 ac mewn canllawiau statudol.

Cwmpas yr archwiliad o'r Cynllun Gwella

I ddibenion fy ngwaith archwilio byddaf yn derbyn, ar yr amod bod Cyngor yn bodloni ei ofynion statudol, ei fod hefyd wedi cydymffurfio'n ddigonol â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru i gyflawni ei ddyletswyddau.

Ar gyfer yr archwiliad hwn, nid yw'n ofynnol i mi ffurfio barn ynghylch cyflawnder na chywirdeb yr wybodaeth, nac ychwaith ynghylch a ellir cyflawni'r Cynllun Gwella a gyhoeddwyd gan y Cyngor. Bydd gwaith asesu arall a gyflawnir gennyf o dan adran 18 o'r Mesur yn archwilio'r materion hyn. Roedd fy archwiliad o Gynllun Gwella'r Cyngor felly'n cynnwys adolygiad o'r cynllun er mwyn canfod a oedd yn cynnwys elfennau a ragnodwyd mewn deddfwriaeth. Asesais hefyd a oedd y trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r cynllun yn cydymffurfio â gofynion y deddfwriaeth, ac a oedd y Cyngor wedi rhoi sylw i ganllawiau statudol wrth baratoi a chyhoeddi ei gynllun.

Ni ellir dibynnu ar y gwaith a wnaed gennyf er mwyn adrodd a gwneud argymhellion yn unol ag adrannau 17 ac 19 o'r Mesur fel yr unig ffordd o ganfod yr holl wendidau a'r holl gyfleoedd ar gyfer gwella.

Huw Vaughan Thomas

Archwilydd Cyffredinol Cymru

copi i: Leighton Andrews, y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus
Non Jenkins, Rheolwr
Martin Gibson, Arweinydd Archwilio Perfformiad

Atodiad 3 – Archwiliad o asesiad o berfformiad 2014-15 Cyngor Dinas Casnewydd

Tystysgrif

Tystiaf fy mod wedi archwilio asesiad Cyngor Dinas Casnewydd (y Cyngor) o'i berfformiad yn 2014-15, ar ôl i'r asesiad hwnnw gael ei gyhoeddi ar 14 Hydref 2015, yn unol ag adran 17 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) a'm Cod Ymarfer Archwilio.

O ganlyniad i'm harchwiliad, credaf fod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adrannau 15(2), (3), (8), a (9) o'r Mesur ac wedi gweithredu'n unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru i raddau digonol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau.

Priod gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Archwilydd Cyffredinol

O dan y Mesur, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi asesiad blynyddol sy'n disgrifio'i berfformiad:

- o ran cyflawni ei ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni ei swyddogaethau;
- o ran cyflawni'r amcanion gwella y mae wedi'u gosod iddo'i hun;
- drwy gyfeirio at ddangosyddion perfformiad a bennwyd gan Weinidogion Cymru a dangosyddion perfformiad a osododd ar ei gyfer ei hun. ac
- wrth gyrraedd unrhyw safonau perfformiad a bennwyd gan Weinidogion Cymru, a safonau perfformiad a osododd ar ei gyfer ei hun.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi ei asesiad cyn 31 Hydref yn y flwyddyn ariannol yn dilyn y flwyddyn y mae'r wybodaeth yn berthnasol iddi, neu erbyn unrhyw ddyddiad arall a allai gael ei bennu drwy orchymyn gan Weinidogion Cymru.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor roi sylw i ganllawiau a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru wrth gyhoeddi ei asesiad.

Fel archwilydd y Cyngor, y mae'n ofynnol i mi, o dan adrannau 17 ac 19 o'r Mesur, gynnal archwiliad er mwyn canfod a yw'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswydd i gyhoeddi asesiad o berfformiad, tystio fy mod wedi gwneud hynny, ac adrodd a wyf o'r farn fod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau'n unol â gofynion statudol a nodwyd yn adran 15 ac mewn canllawiau statudol.

Cwmpas yr archwiliad

I ddibenion fy ngwaith archwilio byddaf yn derbyn, ar yr amod bod Cyngor yn bodloni ei ofynion statudol, ei fod hefyd wedi cydymffurfio'n ddigonol â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru i gyflawni ei ddyletswyddau.

Ar gyfer yr archwiliad hwn, nid yw'n ofynnol i mi ffurfio barn ynghylch cyflawnder na chywirdeb yr wybodaeth. Mae'n bosibl y bydd gwaith asesu arall a gyflawnir gennyf o dan adran 18 o'r Mesur yn archwilio'r materion hyn. Roedd fy archwiliad o Gynllun Gwella'r Cyngor felly'n cynnwys adolygiad o gyhoeddiad y Cyngor er mwyn canfod a oedd yn cynnwys elfennau a ragnodwyd mewn deddfwriaeth. Asesais hefyd a oedd y trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r asesiad yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth, ac a oedd y Cyngor wedi rhoi sylw i ganllawiau statudol wrth ei baratoi a'i gyhoeddi.

Ni ellir dibynnu ar y gwaith a wnaed gennyf er mwyn adrodd a gwneud argymhellion yn unol ag adrannau 17 ac 19 o'r Mesur fel yr unig ffordd o ganfod yr holl wendidau a'r holl gyfleoedd ar gyfer gwella.

Huw Vaughan Thomas

Archwilydd Cyffredinol Cymru

copi i: Leighton Andrews, y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus
Non Jenkins, Rheolwr
Sara-Jane Byrne, Arweinydd Archwilio Perfformiad

Atodiad 4 – Llythyr Archwilio Blynyddol

Councillor Y Cyngorydd R Bright
Arweinydd y Cyngor a Chadeirydd y Cabinet
Cyngor Dinas Casnewydd
Y Ganolfan Ddinesig
Casnewydd
De Cymru
NP20 4UR

1 Chwefror 2016

Annwyl Gyngorydd Bright

Llythyr Archwilio Blynyddol - Cyngor Dinas Casnewydd 2014-15

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n codi o gyfrifoldebau statudol Archwilydd Cyffredinol Cymru o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'm cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

Mae'r Awdurdod wedi cydymffurfio â'i gyfrifoldebau'n gysylltiedig ag adroddiadau ariannol a'r defnydd o adnoddau

Cyfrifoldeb yr Awdurdod yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau yn ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- paratoi Datganiad o Gyfrifon yn unol â'r gofynion perthnasol; a
- sefydlu a chynnal adolygiad parhaus o drefniadau priodol i sicrhau ei fod yn defnyddio ei adnoddau mewn modd darbodus, effeithlon ac effeithiol.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud hi'n ofynnol i mi:

- ddarparu barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Awdurdod i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau; a
- chyhoeddi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r gwaith o archwilio'r cyfrifon.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

Ar 30 Medi 2015 cyflwynais farn archwilio ddiamedod ar y datganiadau cyfrifyddu, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion y Awdurdod. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad o Gyfrifon. Adroddwyd y prif faterion oedd yn deillio o'r archwiliad y gyfrifon wrth aelodau'r Pwyllgor Archwilio yn fy adroddiad ar fy Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol ar 24 Medi 2015 (gweler y crynodeb isod), ac fe geir adroddiad manylach gyda hyn o'r materion a oedd yn codi.

Arddangosyn 1 - Materion arwyddocaol sy'n codi o'r archwiliad

| Gofynion Adrodd | Canfyddiadau'r Archwiliad |
|------------------------------|--|
| Y farn archwilio | <p>Roedd yr adroddiad archwilio yn cynnwys paragraff 'Pwyslais ar Fater' a oedd yn tynnu sylw darllenwyr at y ffaith nad oedd y Cyngor wedi paratoi cyfrifon Grŵp ar gyfer Newport Transport Limited. Nid oedd y farn yn amodol mewn perthynas â'r mater hwn.</p> |
| Camddatganiadau nas cywirwyd | <p>Mae Ychwanegiadau Eiddo, Peiriannau Mawr ac Offer a adroddwyd yn Nodyn 12 yn cynnwys 'gorddatganiad' o £108,000, gan nad oedd TAW wedi'i chynnwys yn y swm a gyfalafwyd.</p> <p>Cafwyd gorddatganiad o £127,000 i ddarpariaeth y cap tirlenwi.</p> <p>Cafwyd gorddatganiad o £329,000 i'r ddarpariaeth ar gyfer Taliadau Pontio Cyflog Cyfartal a adroddwyd yn Nodyn 21. Hefyd, yn Nodyn 21, roedd darpariaethau'n cynnwys £900,000 ar gyfer 'taliadau pontio' a 'hawliadau a oedd yn weddill' yn gysylltiedig â Chyflog Cyfartal.</p> <p>Cafodd yr un gwerth ie ddyblygu o fewn cronfeydd wedi'u clustnodi, a ddatgelwyd yn Nodyn 8.</p> <p>Cafodd y Rhwymedigaeth Pensiwn a ddatgelwyd yn Nodyn 41 ei chyfrifo'n seiliedig ar wybodaeth anghywir a ddarparwyd gan y Cyngor i'w Actwari.</p> <p>Yn ein profion, canfuwyd gwariant a oedd wedi 'cronni' nad oedd modd ei gynnal yn ddigonol, felly fe'i dosbarthwyd fel gwall. O'i 'allosod' ar draws cyfanswm y cronïadau, gwelwyd gwerth cyfanswm gwall posibl o £513,000.</p> <p>Yr oedd swm 'heb ei gysoni' o £3,991,000 yn Nodyn 29, sydd yn rhoi dadansoddiad o incwm a gwariant (nad oedd yn cael unrhyw effaith ar gywirdeb y prif ddatganiadau).</p> <p>Nid oedd y Cyngor wedi rhoi cyfrif cywir am ei gyfran mewn gweithrediadau 'a reolir ar y cyd'.</p> <p>Roedd yr holl faterion uchod naill ai'n amherthnasol i'n barn archwilio, neu lle'r oeddynt yn berthnasol, roedd disgwyl iddynt gael eu hunioni yn rhan o gyfrifon 2015-16.</p> |
| Camddatganiadau a gywirwyd | <p>Yr oedd naw o gamddatganiadau sylweddol yn y datganiadau a gywirwyd gan y rheolwyr cyn cyhoeddi'r farn archwilio.</p> |

| Gofynion Adrodd | Canfyddiadau'r Archwiliad |
|---|---|
| Materion pwysig eraill yn codi o'r archwiliad | <p>Adroddwyd amrywiaeth o bryderon gennym ynghylch agweddau ansoddol ar arferion cyfrifyddu ac adroddiadau ariannol.</p> <p>Cafwyd llawer o newidiadau i staff cyllid y Cyngor, yn enwedig mewn meysydd allweddol, ac mae'n amlwg bod hyn wedi effeithio ar yr archwiliad, ar argaeledd papurau gwaith, ac ar yr amseroedd ymateb i ymholiadau archwilio.</p> <p>Fe'n sicrhawyd, yn sgil oedi cyn cyflwyno'r cyfrifon drafft i'w harchwilio, y byddai modd i'r Cyngor gynnal ymarfer sicrhau ansawdd o ansawdd uchel ar ddrafft y cyfrifon gan roi digon o amser iddo sicrhau y byddai'r holl papurau gwaith ar gael yn rhwydd ac wedi'u darparu gyda'r cyfrifon drafft ar 1 Gorffennaf.</p> <p>Ar sawl achlysur yn nrafft y cyfrifon, gwelsom y byddai adolygiad rheoli cadarn wedi bod yn fodd i gael hyd i anghysondebau a phroblemau'n gysylltiedig â phapurau gwaith.</p> <p>Yn gyffredinol, ac yn enwedig tua diwedd yr archwiliad, cefais wybodaeth ddefnyddiol yn brydlon, ac ni chyfyngwyd ar fy ngwaith. Bydd y tîm archwilio yn parhau i weithio gyda staff cyllid allweddol yn ystod y flwyddyn i ddod er mwyn nodi gwelliannau ac arbedion effeithlonni pellach posib yn y broses archwilio.</p> |

Yr wyf yn fodlon bod gan Awdurdod drefniadau priodol ar waith i sicrhau ei fod yn defnyddio ei adnoddau mewn modd darbodus, effeithlon ac effeithiol

Seiliwyd fy ystyriaeth o drefniadau'r Awdurdod i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ar y gwaith archwilio cyfrifon a gyflawnwyd. Dibynnwyd hefyd ar waith a gwblhawyd yn rhan o'r Aseiad Gwella o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Bydd fy Adroddiad Gwella Blynyddol yn amlygu meysydd lle nad yw effeithiolrwydd y trefniadau hyn wedi'i ddangos hyd yma, neu lle gellid cyflwyno gwelliannau.

Cwblhawyd tystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau, ac fe'i cyflwynwyd i'r Awdurdod ar 30 Medi 2015

Yn ystod y flwyddyn, ni chafwyd unrhyw her na gwrthwynebiad ffurfiol i'r cyfrifon, y bu'n rhaid imi ymdrin â hwy

Ar hyn o bryd, disgwylir y bydd y ffi ariannol ar gyfer 2014-15 £3,290 yn uwch na'r ffi a nodwyd yn yr Amlinelliad Archwilio Blynyddol. Y rheswm dros y cynnydd hwn yw'r oedi cyn inni dderbyn papurau gwaith cyflawn, a'r gwaith ychwanegol yr oedd angen ei wneud yn gysylltiedig â chyfuno Trafnidiaeth Casnewydd.

Hoffwn fynegi diolch i holl staff y Cyngor a'm cynorthwyodd i gwblhau fy ngwaith archwilio.

Yn gywir

Anthony Barrett

Ar gyfer ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru

copi i: Will Godfrey, Prif Weithredwr
Meirion Rushworth, Pennaeth Cyllid

Atodiad 5 – Argymhellion adroddiadau cenedlaethol a gyhoeddwyd yn 2015-16

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|----------------------|--|---|
| Ebrill 2015 | <p>Cydnorthedd ariannol cynghorau</p> | <p>A1 Dylai cynghorau sicrhau bod eu cynllun corfforaethol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • wrth wraidd y broses o lywio cynlluniau gwasanaeth a strategaethau ategol eraill gan gynnwys y gweithlu, technoleg gwybodaeth a gwariant cyfalaf; • yn cynnal blaenolwg 3-5 mlynedd o leiaf a'i fod yn unol â'r cynllun ariannol tymor canolig a strategaethau ategol eraill; a • dylai nodi'n glir rôl ddymunol y cyngor mewn pum mlynedd - y model ar gyfer darparu gwasanaethau â blaenoriaeth a'r seilwaith a'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni blaenoriaethau yn y dyfodol o fewn y cyllid sydd ar gael. <p>A2 Dylai'r cynllun ariannol tymor canolig nodi'r prif risgiau ariannol a thybiaethau allweddol a dylai uwch swyddogion a chynghorwyr graffu arnynt a'u herio'n effeithiol cyn mabwysiadu'r cynllun.</p> <p>A3 Mae angen i gynghorau sicrhau bod diffygion ariannol yn cael eu rhagamcanu'n gywir a'u cysoni'n llawn â chynlluniau arbed manwl ar gyfer pob blwyddyn o oes y cynllun ariannol tymor canolig.</p> <p>A4 Dylai cynghorau gynnal adolygiad rheolaidd o ddigonolrwydd y trefniadau sicrwydd ariannol sy'n sail i gyflawni cynlluniau arbed blynyddol, gan gynnwys lefel y gwaith craffu a herio a gynigir gan gynghorwyr.</p> <p>A5 Dylai cynghorau sicrhau bod ganddynt strategaeth cronfeydd wrth gefn gynhwysfawr sy'n amlinellu diben penodol cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy cronedig fel rhan o'u cynllun ariannol tymor canolig.</p> <p>A6 Dylai cynghorau ddatblygu polisiau cwbl gorfforaethol ar gynhyrchu incwm gydag olwg ar gynyddu ffrydiau incwm a lliniaru pwysau ariannol.</p> |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|----------------------|--|---|
| Ebrill 2015 | Cydnherthedd ariannol cynghorau | <p>A7 Dylai cynghorau:</p> <ul style="list-style-type: none"> atgyfnerthu trefniadau pennu a monitro cyllidebau er mwyn sicrhau cydnherthedd ariannol; ac adolygu cwmpas ac effeithiolrwydd eu systemau a'u rheolaethau ariannol mewnol ac allanol er mwyn sicrhau eu bod yn addas at y diben ac yn rhoi rhybudd cynnar am wendidau mewn systemau allweddol. <p>A8 Rhaid i gynghorau adolygu eu timau cyllid a sicrhau bod ganddynt ddigon o gapasiti a gallu i fodloni gofynion yn y dyfodol.</p> <p>A9 Mae angen i swyddogion cynghorau sicrhau bod gan gynghorwyr y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i gyflawni gwaith llywodraethu a herio effeithiol drwy ymestyn cyfleoedd hyfforddi a llunio gwybodaeth reoli o ansawdd uchel.</p> |
| Mehefin 2015 | Sicrhau gwelliannau yn y cymorth i ysgolion trwy gonsortia addysg rhanbarthol – darlun cynnar | <p>A1 Egluro natur a gweithrediad y consortia. Canfuwyd bod ansicrwydd parhaus ynghylch rhai agweddau ar natur y consortia rhanbarthol a'u cwmpas presennol ac yn y dyfodol (paragraffau 2.2 i 2.20). Rydym yn argymhell felly:</p> <ul style="list-style-type: none"> Y dylai awdurdodau lleol egluro a yw gwasanaethau consortia i'w darparu ar y cyd neu a ydynt yn wasanaethau a gomisiynir (gwasanaethau a ddarperir ar y cyd yw gwasanaethau a ddarperir dan drefniadau cydbwyllgor, yn hytrach na gwasanaethau a gomisiynir). <p>A2 Canolbwyntio ar ddeilliannau trwy gynllunio tymor canolig. Canfuwyd bod pwyslais ar gamau byrdymor ac ansicrwydd ynglŷn â dyfodol y consortia yn amharu ar ddatblygiad effeithiol y consortia rhanbarthol (paragraffau 2.33 i 2.36; 3.16 i 3.17). Rydym felly yn argymhell felly:</p> <ul style="list-style-type: none"> Gan na fydd unrhyw gynllun i ad-drefnu awdurdodau lleol yn cael ei weithredu'n llawn hyd 2020, dylai Llywodraeth Cymru a chonsortia rhanbarthol ddatblygu cynlluniau tair blynedd er mwyn datblygu, cwmpasu ac ariannu consortia rhanbarthol yn gysylltiedig ag amcanion strategol priodol. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|----------------------|--|---|
| Mehefin 2015 | <p>Sicrhau gwelliannau yn y cymorth i ysgolion trwy gonsortia addysg rhanbarthol – darlun cynnar</p> | <p>A3 Datblygu mwy o berthnasau cydweithredol ar gyfer y system gwella ysgolion</p> <p>Roedd llawer o bartneriaid gwella ysgolion yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol ond canfuwyd nad oedd hyn wedi arwain at feithrin perthnasau digon cydweithredol (paragraffau 2.25 i 2.32). Rydym yn argymhell felly:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Y dylai consortia rhanbarthol ddatblygu trefniadau gwell ar gyfer rhannu arferion a chefnogi effeithlonrwydd (er enghraifft, gallai un consortiwm arwain y gwaith o ymdrin â phroblem neu fod â chyfrifoldeb swyddogaethol ar gyfer datblygu polisi). • Y dylai Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol gydnabod bod yr holl bartneriaid yn ddibynnol ar ei gilydd er mwyn cyflawni eu swyddogaethau gwella ysgolion a chytuno ar ddull o: <ul style="list-style-type: none"> – rannu gwybodaeth ac ymgynghori ar ddatblygiadau sy'n berthnasol i wella ysgolion; – datblygu perthynas gydweithredol sy'n rhannu atebolrwydd; a – chynnal adolygiadau o'r system gyfan, ac alinio dealltwriaeth a safbwynt y consortia rhanbarthol ar draws pob un o strategaethau perthnasol Llywodraeth Cymru. <p>A4 Datblygu arweinwyr effeithiol a denu'r unigolion mwyaf dawnus</p> <p>Mae'r consortia rhanbarthol, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru wedi cael anawsterau wrth recriwtio uwch-arweinwyr addysg a chanfuwyd mai ychydig iawn o gamau a oedd wedi eu cymryd i ymdrin â hyn (paragraffau 2.37 i 2.40). Rydym ym argymhell felly:</p> <ul style="list-style-type: none"> • y dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol gydweithio i wneud swyddi addysg arweiniol yn fwy deniadol, er mwyn denu'r arweinwyr mwyaf dawnus ar gyfer y system gwella addysg; ac • y dylai awdurdodau lleol gydweithio i gefnogi datblygiad proffesiynol yr uwcharweinwyr a sicrhau bod trefniadau rheoli perfformiad ar waith ar gyfer uwcharweinwyr. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|----------------------|--|--|
| Mehefin 2015 | <p>Sicrhau gwelliannau yn y cymorth i ysgolion trwy gonsortia addysg rhanbarthol – darlun cynnar</p> | <p>R5 To improve the effectiveness of governance and management of regional consortia. Whilst continuing progress is being made, we found that regional consortia have not yet developed fully effective governance and financial management arrangements (paragraphs 3.2 to 3.36). We therefore recommend that local authorities and their regional consortia should:</p> <ul style="list-style-type: none"> • improve their use of self-evaluation of their performance and governance arrangements and use this to support business planning and their annual reviews of governance to inform their annual governance statements; • improve performance management including better business planning, use of clear and measurable performance measures, and the assessment of value for money; • make strategic risk management an integral part of their management arrangements and report regularly at joint committee or board level; • develop their financial management arrangements to ensure that budgeting, financial monitoring and reporting cover all relevant income and expenditure, including grants funding spent through local authorities; • develop joint scrutiny arrangements of the overall consortia as well as scrutiny of performance by individual authorities, which may involve establishment of a joint scrutiny committee or co-ordinated work by local authority scrutiny committees; • ensure the openness and transparency of consortia decision making and arrangements; • recognise and address any potential conflicts of interest; and where staff have more than one employer, regional consortia should ensure lines of accountability are clear and all staff are aware of the roles undertaken; and • develop robust communications strategies for engagement with all key stakeholders. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|----------------------|--|--|
| Gorffennaf 2015 | Adolygiad o Drefniadau Diogelu Corfforaethol yng Nghynghorau Cymru | <p>A1 Gwella arweiniad corfforaethol a chydymffurfio â pholisi Llywodraeth Cymru ar ddiogelu trwy wneud yr isod:</p> <ul style="list-style-type: none"> • penodi uwch swyddog arweiniol fydd yn atebol am ddiogelu ac amddiffyn plant a phobl ifanc gyda chyfrifoldebau corfforaethol am gynllunio gwelliannau; • penodi aelod arweiniol dros ddiogelu; • dosbarthu a chyfoesi yn rheolaidd wybodaeth am y penodiadau hyn i'r holl staff a rhanddeiliaid. <p>A2 Sicrhau bod polisi corfforaethol ar ddiogelu sy'n cynnwys holl wasanaethau'r Cyngor er mwyn rhoi cyfeiriad strategol clir a llinellau atebolrwydd clir ar draws y Cyngor.</p> <p>A3 Atgyfnerthu'r trefniadau ar gyfer recriwtio staff a gwirfoddolwyr mewn modd diogel drwy wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • sicrhau bod gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a chydymffurfio â pholisïau recriwtio diogel yn cynnwys pob gwasanaeth sy'n dod i gysylltiad â phlant; • creu system gydymffurfio gorfforaethol integredig i gofnodi a monitro lefelau cydymffurfio ar wiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd; • mynnu cael arferion recriwtio diogel ymysg partneriaid yn y trydydd sector ac i wirfoddolwyr sydd yn darparu gwasanaethau a gomisiynir a/ neu a ddefnyddir gan y Cyngor gyda sylfaen o gontract neu gytundeb lefel gwasanaeth. <p>A4 Sicrhau bod y staff, aelodau a phartneriaid perthnasol yn deall eu cyfrifoldebau diogelu trwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> • sicrhau bod hyfforddiant diogelu yn orfodol a bod yr ymdriniaeth yn ymestyn at holl feysydd gwasanaeth perthnasol y Cyngor a'i fod yn cael ei gynnwys fel elfen safonol ar raglenni cynefino; • creu system ledled y gorfforaeth i adnabod, olrhain a monitro cydymffurfiaeth a'r angen i fod yn bresennol mewn hyfforddiant diogelu yn holl adrannau'r Cyngor, aelodau etholedig, ysgolion, llywodraethwyr a gwirfoddolwyr; • mynnu bod staff perthnasol mewn sefydliadau sy'n bartneriaid a gomisiynir i weithio dros y Cyngor wrth gyflenwi gwasanaethau i blant a phobl ifanc yn gorfod ymgymryd â hyfforddiant diogelu. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|----------------------|--|---|
| Gorffennaf 2015 | <p>Adolygiad o Drefniadau Diogelu Corfforaethol yng Nghynghorau Cymru</p> | <p>A5 Wrth adolygu canllawiau, dylai Llywodraeth Cymru egluro'r hyn mae'n disgwyl o awdurdodau lleol ynghylch swyddogaethau a chyfrifoldebau'r swyddog dynodedig mewn gwasanaethau addysg, a'r unigolyn a enwyd ar lefel uwch reolwr sy'n gyfrifol am hybu diogelu.</p> <p>A6 Gwella atebolrwydd am ddiogelu corfforaethol trwy adrodd yn rheolaidd ar faterion diogelu a sicrwydd wrth bwyllgor(au) craffu yn erbyn set gytbwys o wybodaeth perfformiad ledled y Cyngor ynglŷn â'r canlyno:</p> <ul style="list-style-type: none"> • meincnodi a chymharu ag eraill; • casgliadau archwiliadau/adolygiadau arolygu mewnol ac allanol; • data perfformiad seiliedig ar wasanaethau; • data personél allweddol megis hyfforddiant diogelu, a gwiriadau recriwtio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd; • perfformiad contractwyr a gwasanaethau a gomisiynwyd o ran cydymffurfio â chyfrifoldebau diogelu'r Cyngor. <p>A7 Sefydlu rhaglen dreigl o adolygiadau archwilio mewnol i gynnal profion ar systemau a chynnal adolygiadau cydymffurfio ar arferion diogelu'r Cyngor.</p> <p>A8 Sicrhau yr ystyrir y risgiau sy'n gysylltiedig â diogelu ar lefel gorfforaethol a gwasanaeth wrth ddatblygu a chytuno ar gynlluniau rheoli risg ar draws y Cyngor.</p> |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|----------------------|--|--|
| Hydref 2015 | <p>Helpu Pobl Hŷn i Fyw'n Annibynnol: A yw Cyngorau'n Gwneud Digon?</p> | <p>A1 Gwella llywodraethu, atebolrwydd ac arweinyddiaeth gorfforaethol yng nghyswllt materion pobl hŷn drwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> • penodi uwch swyddog arweiniol sy'n gyfrifol am gydgyssylltu ac arwain gwaith y Cyngor ar wasanaethau pobl hŷn; • ailalinio gwaith cydgysylltwyr y strategaeth pobl hŷn er mwyn helpu i ddatblygu a chyflawni cynlluniau ar gyfer gwasanaethau sy'n cyfrannu at annibyniaeth pobl hŷn; • penodi aelod yn hyrwyddwr gwasanaethau pobl hŷn; • diweddarau gwybodaeth am y penodiadau hyn yn rheolaidd, a rhannu'r wybodaeth honno'n rheolaidd â'r holl staff a'r rhanddeiliaid. <p>A2 Gwella'r gwaith cynllunio strategol a chydgyssylltu gweithgarwch gwasanaethau i bobl hŷn yn well drwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> • sicrhau bod cynlluniau gweithredu cynhwysfawr ar waith sy'n trafod gwaith holl adrannau perthnasol y Cyngor a gwaith rhanddeiliaid allanol y tu allan i iechyd a gofal cymdeithasol; • ymgysylltu â phreswylwyr a phartneriaid wrth ddatblygu cynlluniau, ac wrth ddatblygu a chytuno ar flaenoriaethau. <p>A3 Gwella'r ymgysylltu â gwybodaeth i bobl hŷn a'r trefniadau ar gyfer lledaenu'r wybodaeth honno, drwy sicrhau bod gwasanaethau cyngor a gwybodaeth wedi'u cyflunio'n briodol ac yn bodloni anghenion y sawl sy'n eu derbyn.</p> <p>A4 Sicrhau rheolaeth effeithiol ar berfformiad yr ystod o wasanaethau sy'n helpu pobl hŷn i fyw'n annibynnol drwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> • pennu mesurau priodol i alluogi aelodau, swyddogion a'r cyhoedd i lunio barn ar gynnydd wrth gyflawni camau gweithredu ar gyfer holl wasanaethau'r Cyngor; • sicrhau bod gwybodaeth am berfformiad yn ymdrin â gwaith yr holl asiantaethau perthnasol ac yn enwedig y rhai y tu allan i faes iechyd a gwasanaethau cymdeithasol; • sefydlu dulliau mesur i farnu ynghylch mewnbwn, allbwn ac effaith, fel bo modd deall effaith toriadau cyllideb a chefnogi gwaith goruchwyllo a chraffu. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|----------------------|--|--|
| Hydref 2015 | <p>Helpu Pobl Hŷn i Fyw'n Annibynnol: A yw Cyngorau'n Gwneud Digon?</p> | <p>A5 Sicrhau cydymffurfiaeth â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus wrth gynnal asesiadau effaith cydraddoldeb drwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> • nodi sut y bydd newid gwasanaethau neu dorri cyllidebau'n effeithio ar grwpiau a chanddynt nodweddion gwarchoddedig; • mesur yr effaith bosibl a'r camau lliniaru a gyflawnir er mwyn lleihau'r effaith negyddol bosibl ar grwpiau a chanddynt nodweddion gwarchoddedig; • nodi'r niferoedd posibl y byddai'r newidiadau arfaethedig neu'r polisi newydd effeithio arnynt, drwy nodi'r effaith ar rai a chanddynt nodweddion gwarchoddedig; • sicrhau bod gweithgarwch ategol, megis arolygon, grwpiau ffocws ac ymgyrchoedd gwybodaeth yn cynnwys digon o wybodaeth i alluogi defnyddwyr gwasanaeth i ddeall yn glir sut y bydd y newidiadau arfaethedig yn effeithiol arnynt. <p>A6 Gwella'r rheolaeth ar y Gronfa Gofal Canolraddol, ac effaith y gronfa honno drwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> • bennu llinell sylfaen ar gyfer perfformiad ar ddechrau prosiectau fel bo modd barnu ynghylch effaith y prosiectau hynny dros amser; • cytuno ar fformat a chwmpas adroddiadau monitro fel bo modd cynnal gwerthusiadau cymaradwy o brosiectau a ariennir yn erbyn meini prawf y gronfa, er mwyn barnu pa brosiect sy'n cael yr effaith fwyaf cadarnhaol a faint o gynlluniau sydd wedi cael eu prif ffrydio i dderbyn cyllid craidd; • gwella'r ymgysylltu â'r ystod lawn o bartneriaid er mwyn sicrhau bod amrywiaeth mor eang ag sy'n bosibl o bartneriaid yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn mentrau a rhaglenni yn y dyfodol. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|----------------------|--|--|
| Rhagfyr 2015 | Cyflawni â llai - Gwasanaethau Hamdden | <p>A1 Gwella gwaith cynllunio strategol yn y gwasanaethau hamdden drwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> • bennu gweledigaeth gytunedig i gynghorau ar gyfer gwasanaethau hamdden; • cytuno ar flaenoriaethau ar gyfer gwasanaethau hamdden; • canolbwyntio ar sefyllfa'r Cyngor oddi mewn i ddarpariaeth chwaraeon a hamdden gymunedol ehangach yr ardal; • ystyried y posibilrwydd o gyflenwi gwasanaethau'n rhanbarthol. <p>A2 Cynnal arfarniad o opsiynau er mwyn canfod y model cyflenwi mwyaf priodol yn seiliedig ar weledigaeth gytunedig y Cyngor a'i flaenoriaethu ar gyfer gwasanaethau hamdden. Dylai'r arfarniad ystyried:</p> <ul style="list-style-type: none"> • faint o gyllid cyfalaf a refeniw sydd ar gael dros y tair i bum mlynedd nesaf; • opsiynau i wella ffocws masnachol gwasanaethau hamdden; • cyfleoedd i gynyddu'r incwm a gynhyrchir a lleihau 'cymhorthdal' cynghorau; • dadansoddiad cost a budd o'r holl opsiynau sydd ar gael i gyflenwi gwasanaethau hamdden yn y dyfodol; • cyfraniad gwasanaethau hamdden at rôl ehangach y Cyngor o ran iechyd y cyhoedd; • ymgysylltu'n well â'r cyhoedd er mwyn sicrhau bod safbwyntiau ac anghenion defnyddwyr a darpar ddefnyddwyr yn cael eu nodi'n glir; • effaith gwahanol opsiynau ar grwpiau a chanddynt nodweddion gwarchoddedig o dan ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus; • cynaliadwyedd y gwasanaethau a ddarperir yn y dyfodol. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|----------------------|--|---|
| Rhagfyr 2015 | Cyflawni â llai - Gwasanaethau Hamdden | <p>A3 Sicrhau rheolaeth effeithiol ar berfformiad gwasanaethau hamdden drwy sefydlu cyfres o fesurau er mwyn galluogi swyddogion, aelodau a dinasyddion i farnu ynghylch mewnbwn, allbwn ac effaith. Dylai hyn gwmpasu perfformiad ym mhob rhan o'r Cyngor a pherfformiad cyfleusterau penodol, a chynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • gwariant cyfalaf a refeniw; • incwm; • 'cymhorthdal' y Cyngor; • ansawdd y cyfleusterau a'r gwasanaeth a ddarperir; • bodlonrwydd cwsmeriaid; • llwyddiant mentrau 'masnachol newydd'; • data defnydd – y nifer sy'n defnyddio'r gwasanaethau/cyfleusterau, amserau defnydd ac ati; ac • effaith cyfleusterau hamdden wrth ymdrin â blaenoriaethau iechyd y cyhoedd. <p>A4 Gwella'r trefniadau llywodraethu, atebolrwydd ac arweinyddiaeth gorfforaethol yn y gwasanaethau hamdden drwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> • adrodd yn rheolaidd ar berfformiad wrth byyllgor(au) craffu; • darparu gwybodaeth gynhwysfawr i aelodau etholedig er mwyn hwyluso proses benderfynu gadarn; • meincnodi a chymharu perfformiad ag eraill; • defnyddio canfyddiadau adolygiadau archwilio/ arolygu mewnol ac allanol i ganfod cyfleoedd i wella gwasanaethau. |

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru